IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 3 TACHWEDD 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jacobsen a/ac Robson |

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gais am drwydded Cerbyd Hacni/Llogi Preifat. Nododd yr Aelodau fod GDG yr ymgeisydd wedi nodi nifer o gollfarnau. Roedd y collfarnau wedi digwydd rhwng 2001 a 2002. Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yr ymgeisydd. Dywedodd yr ymgeisydd fod y troseddau wedi'u cyflawni dros gyfnod byr pan oedd yn ifanc. Roedd nifer o'r troseddau wedi'u cyflawni tra oedd dan ddylanwad alcohol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymgeisydd yn difaru ei ymddygiad ar y pryd. Roedd bellach yn briod â 3 o blant ac nid yw wedi cael collfarn ers dros 18 mlynedd. Cyflwynwyd hanes cyflogaeth llawn.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat.

(2) Cais 2

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan yr ymgeisydd drwydded gynt, ond dirymwyd y drwydded yn dilyn collfarnau, yr oedd un ohonynt yn ymwneud â throsedd yn cynnwys trais. Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yr ymgeisydd. Eglurodd yr ymgeisydd yr amgylchiadau a arweiniodd at y collfarnau. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i'r ymgeisydd wneud sylwadau ar drosedd goryrru diweddar.

PENDERFYNWYD - Gwrthod y cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid gwrthod y cais yn unol â chanllawiau'r Is-bwyllgor sy'n ymwneud â chollfarnau blaenorol.

(3) Cais 3

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan ymgeisydd trwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat. Mae gan yr ymgeisydd nifer o gollfarnau am droseddau a gyflawnwyd rhwng 2009 a 2013. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y troseddau wedi'u cyflawni yn ystod cyfnod cythryblus ar ôl i'r ymgeisydd golli ei rieni a phan oedd yn ddigartref. Roedd yr ymgeisydd bellach wedi ymsefydlu. Roedd wedi cael ei gyflogi fel gyrrwr dosbarthu ac roedd yn gweithio mewn warws ar

hyn o bryd.  Dywedodd yr ymgeisydd nad oedd unrhyw gollfarnau gyrru ganddo.  Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod yr ymgeisydd wedi cael 3 phwynt cosb gyrru am dorri rheoliadau croesfan i gerddwyr.  Pan ofynnwyd iddo wneud sylwadau, nododd yr ymgeisydd ei fod wedi goddiweddyd cerbyd arall ar groesfan i gerddwyr tra'n ymateb i argyfwng teuluol.

PENDERFYNWYD - Gwrthod y cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol.  Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid gwrthod y cais yn unol â chanllawiau'r Is-bwyllgor sy'n ymwneud â chollfarnau blaenorol.

(4) Cais 4

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymgeisydd wedi'i farnu’n euog o drosedd yn cynnwys trais yn ystod 2014.  Eglurodd yr ymgeisydd yr amgylchiadau a arweiniodd at y gollfarn.  Dywedwyd wrth yr Aelodau yr ymosodwyd ar yr ymgeisydd wrth weithio mewn siop.  Defnyddiodd yr ymosodwr botel i anafu'r ymgeisydd.  Bwriodd yr ymgeisydd ei ymosodwr i amddiffyn ei hun.  Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol i dderbyn ple euog.  Fodd bynnag, nid oedd wedi bod yn byw yn y wlad ers amser maith bryd hynny ac nid oedd yn deall y goblygiadau'n llawn.  Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi'i gyflogi ers y gollfarn.  Nid oedd ganddo unrhyw gollfarnau blaenorol na chollfarnau pellach.

PENDERFYNWYD - Gwrthod y cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol.  Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid gwrthod y cais yn unol â chanllawiau'r Is-bwyllgor sy'n ymwneud â chollfarnau blaenorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm